Dros ddysgwyr, dros Gymru
For learners, for Wales

Ysgol Gymraeg Llangennech
Maes Y Dderwen
Llangennech
Llanelli
SA14 8YB

08/12/2025

Annwyl arweinwyr a staff

**Ymweliad Interim:** Tachwedd 2025

Ymwelodd tîm o arolygwyr ag Ysgol Gymraeg Llangennech yn ddiweddar i ystyried cynnydd mewn perthynas ag un argymhelliad o'r arolygiad craidd blaenorol. Yn ogystal, edrychwyd ar gynnydd yr ysgol wrth gyflawni gofynion un flaenoriaeth yng nghynllun gwella'r ysgol. Manteisiodd y tîm arolygu ar y cyfle i arsylwi addysgu a dysgu, siarad â disgyblion a staff, ystyried dogfennaeth, ac edrych ar samplau o waith disgyblion. Isod, ceir crynodeb o ganfyddiadau'r ymweliad.

## Ffocws yr ymweliad

### Sicrhau bod profiadau dysgu yn cynnig y lefel briodol o her i alluogi pob disgybl i wneud y cynnydd gorau a datblygu eu dysgu'n llawn

- Mae arweinwyr yn cydweithio'n effeithiol ag athrawon a chynorthwywyr er mwyn myfyrio ar y modd maent yn herio disgyblion. Maent wedi teilwra'r modd y maent yn cynllunio'r cwricwlwm, gan fabwysiadu dull ymchwiliol, sy'n darparu cyfleoedd pwrpasol i ddisgyblion ddatblygu annibyniaeth a pherchnogaeth gynyddol o'u dysgu.
- Mae gweledigaeth arweinwyr a staff wedi ei seilio'n gadarn ar ddatblygu hyder disgyblion, gan ganiatáu iddynt fagu annibyniaeth trwy wneud dewisiadau am eu dysgu ac adeiladu ar eu medrau. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn ymgysylltu'n llawn yn eu tasgau ac yn adeiladu ar eu gwahanol fedrau'n llwyddiannus, sydd, yn ei dro, yn eu cefnogi i wneud cynnydd cadarn.
- Mae athrawon yn cyflwyno ymholiadau, sydd wedi eu cynllunio'n ofalus, i sbarduno'r disgyblion i feddwl yn ystyrlon. Darperir cyfleoedd buddiol iddynt

rannu gwybodaeth ar gychwyn unedau gwaith. Golyga hyn fod y disgyblion yn fwy hyderus wrth rannu eu syniadau am yr hyn yr hoffent ei ddysgu mewn cyd-destunau cyfoethog.

- Cyflwynir tasgau cychwynnol ar ddechrau unedau gwaith, er mwyn sefydlu gwaelodlin manwl ar gyfer pob disgybl. Mae staff yn darparu adborth defnyddiol i ddisgyblion fel eu bod yn deall yr hyn sydd angen arnynt ei wneud i ddatblygu eu gwaith ymhellach. Wrth i ddisgyblion gymharu eu gwaith gorffenedig â'r dasg waelodlin, mae hyn yn gwella eu dealltwriaeth o'u cynnydd yn llwyddiannus.
- Mae athrawon yn darparu gweithgareddau wedi eu graddoli o ran her, ac mae llawer o ddisgyblion yn trafod yn aeddfed sut maent yn dethol y gweithgaredd sydd fwyaf addas ar eu cyfer. Yn ogystal, maent yn dewis sut yr hoffent gyflwyno eu gwaith.

**Gwella ansawdd ac effaith arsylwadau ffocws wythnosol Dan 5 gan sicrhau eu bod nhw'n llywio cynllunio, cefnogi datblygiad unigol ac ymgysylltu â theuluoedd**

- Mae arweinwyr wedi adnabod yr angen i addasu eu darpariaeth ar gyfer y disgyblion ieuengaf i ymateb i'r newid mewn anghenion disgyblion dros amser.
- Mae holl staff y disgyblion ieuengaf yn ymchwilwyr brwd sy'n awyddus i fentro ac i dreialu syniadau newydd. Mae arweinwyr yn ymateb yn gefnogol i ddarganfyddiadau'r staff gan fabwysiadu gweithdrefnau newydd sy'n cael effaith gadarnhaol ar ddysgu'r disgyblion.
- Trwy ystyried 'beth sy'n gwneud dysgwr effeithiol', maent wedi mynd ati i aildrefnu'r ystafelloedd dosbarth a'r ardaloedd allanol. Mae hyn wedi arwain at greu amgylchedd dysgu pwrpasol sy'n gweddu'n dda ar gyfer darparu profiadau cyfoethog sy'n ennyn a chynnal diddordeb disgyblion yn llwyddiannus.
- Mae gan y staff ddealltwriaeth gadarn o ddatblygiad plant ac maent yn eu hasesu'n effeithiol. Maent wedi addasu eu cwricwlwm yn briodol er mwyn sicrhau eu bod yn cynllunio'n fanwl ar gyfer diwallu anghenion dysgu pob disgybl.
- Mae prosesau arsylwi diwygiedig staff yn eu cefnogi i lunio darlun cyflawn o gryfderau pob disgybl a'r camau nesaf ar gyfer eu datblygiad. Maent yn rhannu eu hasesiadau gyda'r rhieni ar ffurf llythyr i'r disgybl. Dros amser, mae hyn yn creu darlun effeithiol o gynnydd cynnar y disgyblion ac yn meithrin perthynas gryf â'r teuluoedd.

Dros ddysgwyr, dros Gymru
For learners, for Wales

Gellir dod o hyd i adroddiad arolygu craidd diweddaraf yr ysgol a gwybodaeth bellach am broses a phwrpas ymweliadau interim ar ein gwefan:
http://www.estyn.llyw.cymru/darparwr/6692396

Yn gywir

**Liz Miles**
Cyfarwyddwr Cynorthwyol